# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Adroddiad Blynyddol

Ebrill 2020 - Mawrth 2021

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill neu yn eich iaith eich hun

Tîm Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol
Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd y Sir
Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NG
Rhif ffôn:☎: - 01352 702131
Ebost: 💻 stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Adroddiad Blynyddol 2020/2021

## Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol**

1. Cyflwyniad 4

2. Cynnydd 5

3. Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb 6

4. Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu (gan gynnwys Cyflog Cyfartal) 12

5. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb 17

6. Hyfforddiant 17

7. Caffael 18

8. Casgliad 18

Atodiadau

1. Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Crynodeb Gweithredol

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Cyngor Sir y Fflint ac mae'n nodi'r cynnydd a wnaed i gyflawni ein saith amcan cydraddoldeb yn ystod 2020/21. Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw lleihau anghydraddoldebau a brofir gan bobl â nodweddion gwarchodedig

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau, er y gwneir hynny mewn ffordd wahanol, ac rydym wedi gallu parhau i wneud cynnydd gan leihau anghydraddoldebau. Mae hyn yn cynnwys gwella ein safle Teithwyr a darparu iPads a chefnogaeth i drigolion hŷn i gadw mewn cysylltiad ar-lein â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi gohirio gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol tan 2021, gwnaethom ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi gan gynnwys hyn fel blaenoriaeth o fewn cynllun y Cyngor. Ymhlith y camau rydym wedi'u cymryd roedd sefydlu'r prosiect *Well-Fed* sy'n darparu bwyd ffres a phrydau bwyd i unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed. Daeth hwn yn wasanaeth arbennig o hanfodol yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi amlygu anghydraddoldebau sydd wedi hen ymsefydlu yn ein cymdeithas ac rydym yn falch o fod wedi gwneud addewid i ddim goddefgarwch at hiliaeth drwy lofnodi ymgyrch Cyngor Hil Cymru "Dim Hiliaeth Cymru". Byddwn yn diweddaru ein cynllun gweithredu i adlewyrchu argymhellion adolygiad Llywodraeth Cymru (LlC) i effaith andwyol anghymesur COVID-19 ar bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Byddwn hefyd yn cynnwys camau gweithredu perthnasol o gynlluniau gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Chydraddoldeb Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) Llywodraeth Cymru pan gânt eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Cynghorydd Billy Mullin
Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau

# Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddodleb Straegol 2020/2021

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) y Cyngor 2020-2024 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac mae'n rhoi crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

1.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus i

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt; a

(c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

1.3 Y nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb yw:

| | |
|---|---|
| Oedran | Anabledd |
| Ailbennu Rhywedd | Priodas a Phartneriaeth Sifil |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Hil |
| Crefydd a Chred | Rhyw |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | |

Nodir ein hymrwymiadau i'r Gymraeg, sef i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn yr Hysbysiad Cydymffurfio â'r Gymraeg. Mae'r camau rydym wedi'u cymryd i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol dros y Gymraeg wedi'u cynnwys mewn adroddiad ar wahân.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus:-

- gyhoeddi amcanion i fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog
- cyhoeddi datganiad yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion a pha mor hir y mae'n disgwyl y bydd yn ei gymryd i gyflawni pob amcan
- llunio adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl
- ymgysylltu â phobl o grwpiau gwarchodedig
- asesu effaith polisïau newydd a diwygiedig ar bobl o grwpiau gwarchodedig
- cyhoeddi a defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb

Diben yr amcanion cydraddoldeb yw lleihau meysydd penodol o anghydraddoldeb a nodwyd gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r cyrff cyhoeddus eraill ledled Gogledd Cymru i nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol. Mae'r amcanion cydraddoldeb lleol a'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi'r amcanion i'w gweld yma.

1.4 Ochr yn ochr â'r SEP cefnogir ein gwaith ar gydraddoldeb gan bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb, a Chanllaw Iaith Glir a gyflwynir fel rhan o wahanol ddogfennau'r Cyngor megis Cynllun y Cyngor a Strategaeth Cwsmeriaid.

## 2. Cynnydd

2.1 Cyhoeddwyd ein hamcanion cydraddoldeb a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Mawrth 2020. Mae'r cynllun gweithredu i fodloni'r SEP yn Atodiad 1; mae hefyd yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed i gyflawni pob cam gweithredu.

2.2 Mae'r tabl canlynol yn nodi ein perfformiad tuag at gyflawni'r camau a bennwyd gennym ar gyfer pob amcan, rydym wedi asesu ein hunain gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

| | |
|---|---|
| C | **Cynnydd Cyfyngedig -** oedi mewn gweithgarwch a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn |
| A | **Cynnydd Boddhaol -** peth oedi o ran gweithgarwch a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn yn fras |
| G | **Cynnydd Da** - gweithgareddau wedi'u cwblhau'n brydlon, ar y trywydd iawn |

| Amcan Cydraddoldeb | Cynnydd |
|---|---|
| Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl. | G |
| Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella llesiant | G |
| Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy weithredu strategaethau cyflog a graddfeydd teg, agored a thryloyw | G |
| Gwella diogelwch personol ar gyfer pob grŵp gwarchodedig | G |
| Cynyddu mynediad at gyfranogiad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau ar gyfer pob grŵp gwarchodedig | G |
| Gwella safonau byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol | G |
| Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi | G |

## 3. Cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb 2020/21

3.1 Mae'r adran hon yn nodi ein cyflawniadau allweddol o ran cyflawni ein saith amcan cydraddoldeb yn ystod 2020/21.

## Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.

**Yn ystod 2020/21:**

- Parhaodd Theatr Clwyd i gynnal sesiynau cerddoriaeth fyw i bobl â Parkinson's, er mai'n rhithwir y gwnaed hynny. Cynhaliodd y theatr weithgareddau creadigol yn rhithwir fel rhan o'u rhaglenni Celfyddydau o'r Gadair Freichiau, Caffi Cof a Chelfyddydau Gyda'n Gilydd ar gyfer oedolion sy'n colli eu cof yn gynnar a /neu sy'n dechrau wynebu dementia.
- Drwy bartneriaeth â "We Mind the Gap" (sefydliad sy'n cefnogi merched ifanc) cyflwynodd Theatr Clwyd sesiynau rhithwir wythnosol i gefnogi merched ifanc ag iechyd meddwl a gwydnwch.
- Gwnaed gwelliannau i'n safle Teithwyr, darparwyd dodrefn stryd ar gyfer gemau a chae pum bob ochr ar safle caled. Gwnaethom hefyd sicrhau bod y brechlyn COVID-19 yn cael ei ddosbarthu i Deithwyr.
- Cefnogwyd lles ein gweithwyr drwy hyrwyddo ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr, Gofal yn Gyntaf, a darparwyd adnoddau i gefnogi iechyd meddwl ac unigedd, gan gynnwys fideos a rhestrau gwirio.
- Darparwyd cyfarpar diogelu personol priodol i'r gweithwyr a chwblhawyd asesiadau risg. Mabwysiadwyd asesiad risg Llywodraeth Cymru ar gyfer Covid-19 ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a'i rannu â'r sector gofal cymdeithasol. Nod hyn oedd lleihau'r risgiau i weithwyr o gefndir Du a lleiafrifoedd ethnig. Rhoddodd ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr "Gofal yn Gyntaf" gymorth gan gynnwys gwasanaeth cwnsela i'n gweithwyr.
- Sefydlodd Theatr Clwyd raglen bedair wythnos yn ystod yr haf ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol. Roedd ar gael pum niwrnod yr wythnos. Cynlluniwyd y cynllun mewn ffordd a fyddai'n cynnig profiad creadigol llawn hwyl gyda cherddoriaeth, dawns, drama a chrefft.
- Benthycwyd iPads a chefnogwyd pobl hŷn a oedd wedi'u hynysu i fynd ar-lein.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

> Dros gyfnod o dair blynedd, cefnogodd ein tîm Tai ddefnyddiwr gwasanaeth o Ddwyrain Ewrop na allai siarad unrhyw Saesneg ac a oedd yn cael ei droi allan o'i heiddo. Roedd yr unigolyn yn dioddef o iechyd corfforol a meddyliol gwael. Roedd asiantaethau eraill wedi tynnu'n ôl oherwydd rhwystrau iaith. Cefnogodd y Tîm Tai yr unigolyn i wneud cais am statws sefydlog yn y DU a chael mynediad i asiantaethau eraill am gymorth ac i hawlio budd-daliadau yr oedd ganddi hawl iddynt, gan gynnwys y rhai o'i gwlad enedigol. Mae'r unigolyn bellach yn derbyn gwasanaethau priodol gan gynnwys gwasanaethau meddygol a chymorth iechyd meddwl gan grŵp arbenigol. Gwnaed addasiadau i'r cartref ac mae cyfarpar ar gael, o ganlyniad mae ei hiechyd corfforol a meddyliol wedi gwella.

## Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella llesiant

**Yn ystod 2020/21:**

- Datblygwyd system electronig ar gyfer cofnodi ac adrodd ar systemau bwlio ar sail hunaniaeth mewn ysgolion.
- Datblygwyd polisi gwrth-fwlio enghreifftiol ar gyfer ysgolion a rhannwyd adnoddau'r Gynghrair Gwrth-fwlio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Codwyd ymwybyddiaeth o fwlio ar sail hunaniaeth yn ystod wythnos gwrth-fwlio
- Roedd hyfforddiant rhithwir Caethwasiaeth Fodern a Llinellau Sirol ar gael i staff ysgolion.
- Cynhaliwyd adolygiadau data rheolaidd yn ystod y flwyddyn i fonitro a nodi dysgwyr agored i niwed a oedd yn dysgu o bell. Cynhaliodd y Swyddogion Cynhwysiant Lles ymweliadau cartref â'r rhai y nodwyd oedd yn agored i niwed er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol.
- Darparwyd gliniaduron gan ein hadran TG i gefnogi dysgwyr nad oedd ganddynt fynediad at ddyfeisiau electronig tra'u bod yn dysgu gartref.
- Darparwyd taliadau uniongyrchol i rai oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, cafodd rhai teuluoedd agored i niwed gynnyrch ffres a phrydau bwyd.

## Amcan 3: Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy weithredu strategaethau cyflog a graddfeydd teg, agored a thryloyw

**Yn ystod y 12 mis diwethaf:**

- Cwblhawyd Archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol gan adolygu'r gwahaniaethau cyflog rhwng dynion a merched, gweithwyr anabl a gweithwyr nad ydynt yn anabl a rhwng gweithwyr o wahanol gefndiroedd ethnig. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan. Ceir crynodeb yn adran 4.8.
- Yn ystod 2020 yn sgil effaith y pandemig, mae cyfran uchel o'r gweithlu wedi bod yn gweithio gartref ac mae rhai achosion maent yn methu â chyflawni eu rôl lawn. Rydym wedi cadw'r gweithwyr hyn ar gyflog llawn, ac wedi canolbwyntio ar yr hyn y gallant ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud.
- Mae'r interniaid 19/20 Project SEARCH wedi cwblhau’r rhaglen, gyda phedwar o bobl ifanc bellach yn gweithio am fwy nag 16 awr yr wythnos, ac mae dau ohonynt wedi sicrhau swyddi yn y Cyngor. Mae hyfforddiant dilynol yn dal i ddigwydd drwy glwb swyddi i'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd. Mae saith intern bellach wedi dechrau rhaglen nesaf Project SEARCH, sy'n cael ei rhedeg fel partneriaeth rhwng y Cyngor, Hft, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Choleg Cambria.  Mae Project SEARCH yn cynnig amrywiaeth o leoliadau gwaith sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau newydd, sydd wedi'u cyfuno â sesiynau ystafell ddosbarth a gynllunir i fagu hyder ac i ddiwallu unrhyw anghenion hyfforddi

## Amcan 4: Gwella diogelwch personol ar gyfer pob grŵp gwarchodedig

**Yn ystod 2020/21:**

- Ail-gartrefwyd dioddefwyr cam-drin domestig yn gyflym yn ystod cyfyngiadau COVID-19.
- Cafwyd 183 o adroddiadau am ddigwyddiadau casineb yn Sir y Fflint yn y cyfnod 2020/21.

| Math o ddigwyddiad | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn seiliedig ar hiliaeth | 33 | 37 | 84 | 76 | 99 | 92 |
| Homoffobig | 6 | 6 | 26 | 29 | 40 | 39 |
| Yn gysylltiedig ag Anabledd | 6 | 9 | 8 | 14 | 20 | 38 |
| Thrawsffobig | 0 | 1 | 0 | 1 | 4 | 7 |
| Crefyddol | 4 | 6 | 5 | 9 | 5 | 7 |
| Cyfanswm | 49 | 59 | 123 | 129 | 168 | 183 |

Bu cynnydd sylweddol mewn troseddau casineb yn gysylltiedig ag anabledd yn ystod 2020/21- roedd yn ymddangos bod hyn yn deillio o gynnydd mewn anghydfodau mewn cymdogaethau yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Cafwyd adroddiadau cynyddol am droseddau casineb trawsffobig a chrefyddol ond gostyngiad bach mewn adroddiadau am fathau eraill o droseddau casineb. Er y bu cynnydd mewn adroddiadau am droseddau casineb, teimlir o hyd nad yw troseddau casineb yn cael eu hadrodd yn llawn ar draws Gogledd Cymru; bydd camau'n parhau i annog pobl i adrodd am achosion. Mae troseddau casineb wedi'u cynnwys fel eitem sefydlog yn Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN) wedi cydweithio i annog adroddiadau am droseddau casineb yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref bob blwyddyn. Hefyd cyhoeddwyd negeseuon ar Facebook a Twitter ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill i annog pobl i adrodd am droseddau casineb.

- Codwyd y Faner Traws ar 20 Tachwedd i goffáu Diwrnod Cofio Trawsrywiol er cof am yr holl bobl Draws sydd wedi colli eu bywydau i drais Trawsffobig.
- Mae 50.65% o weithwyr bellach wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu ar Drais yn erbyn Merched Llywodraeth Cymru.
- Cwblhaodd 307 o weithwyr yr hyfforddiant e-ddysgu ar Gaethwasiaeth Fodern.
- Datblygodd y Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol fideo hyfforddi monitro Troseddau Casineb/Tensiwn a lansiwyd gennym yn 2020 a'i hyrwyddo i staff nad oedd ganddynt fynediad i'r modiwlau e-ddysgu.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

Cefnogodd ein Tîm Tai unigolyn Asiaidd ifanc a oedd yn dioddef o gam-drin domestig a oedd wedi arwain at bryder ac iselder. Roedd y cymorth a ddarparwyd yn cynnwys llety gyda deiliad tŷ cofrestredig, datblygu sgiliau byw'n annibynnol, megis trin arian a choginio a helpu i gael gafael ar gymorth arbenigol. O ganlyniad mae'r unigolyn ifanc hwn yn ddiogel ac wedi sicrhau gwaith rhan-amser yn ogystal â chael mynediad i addysg uwch.

## Amcan 5: Cynyddu mynediad at gyfranogiad i wasanaethau a gwneud penderfyniadau ar gyfer pob grŵp gwarchodedig

**Yn ystod 2020/21:**

- Bu Theatr Clwyd yn ffrydio'n fyw mewn ysbytai, cartrefi gofal ac yn uniongyrchol i gartrefi pobl ar draws Gogledd Cymru. Mae ffrydio byw yn golygu bod pobl sy'n methu â theithio'n dal i allu cael mynediad i theatr o gartref.
- Dyfarnwyd 'Theatr Noddfa' i Theatr Clwyd am eu holl waith cymunedol gyda "Dinas Noddfa" a theuluoedd ffoaduriaid Sir y Fflint dros y tair blynedd diwethaf. Bob pythefnos cynhaliodd y theatr sesiwn greadigol ar Zoom i bobl ifanc a'u teuluoedd, gan weithio'n agos gyda Dinas Noddfa yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Mae Dinas Noddfa yn cefnogi rhwydwaith o bentrefi, trefi a rhanbarthau ledled y DU a bwriad y gweithgareddau yw croesawu pobl sy'n chwilio am noddfa
- Mae rhaglen "Amser i Gysylltu a Ffynnu" Theatr Clwyd yn brosiect peilot i annog pobl na fyddent fel arfer yn cael llais.
- Mae'r theatr wedi creu gweithgor gwrth-hiliaeth ochr yn ochr â gweithgor Hygyrchedd i wella amrywiaeth a mynediad o fewn y theatr.
- Gweithiodd pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr gyda ni a NEWCIS (sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr) i ddatblygu map rhyngweithiol a chanllaw i ddefnyddwyr fel rhan o'n hymrwymiad i ddatblygu ymwybyddiaeth a chymorth dementia ymhellach ar draws y sir. Bydd defnyddwyr yn gallu chwilio'r map i ddod o hyd i leoliadau sy'n ystyriol o ddementia yn eu hardal, ochr yn ochr â safleoedd bysiau a chyfleusterau cymunedol eraill a allai eu helpu i gynllunio eu taith. Mae'r map yn dangos lleoliadau Cymunedau sy'n Ystyriol o Ddementia, caffis cof, sefydliadau a gwasanaethau yn y sir.
- Mae *Young Voices Speak Out* (YVSO), grŵp o bobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal rhwng 13 a 18 oed, wedi parhau i gyfarfod ar-lein i gynrychioli lleisiau plant sy'n derbyn gofal yn Sir y Fflint. Cynhaliwyd gweithdai a thrafodaethau sy'n ymwneud ag iechyd a pherthnasoedd, a modelau maethu. Mae cynrychiolwyr o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru hefyd wedi mynychu eu cyfarfodydd i geisio barn y grŵp.
- Mae Gofalwyr Ifanc wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu manyleb gwasanaeth newydd i helpu i gomisiynu gwasanaeth newydd i Ofalwyr Ifanc. Roedd yr ymgysylltu'n anffurfiol, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd. Roedd pedwar gofalwr ifanc hefyd yn rhan o'r broses gaffael, gan gyfweld â'r

holl sefydliadau oedd yn gwneud cais drwy ofyn cwestiynau yr oeddent wedi'u dewis a chael llais cyfartal am ganlyniad yr ymarfer caffael.

- Adleolwyd Gwasanaethau Anabledd Dysgu i adeiladau newydd. Gwahoddwyd teuluoedd ac unigolion i weld y safle a rhoi eu mewnbwn ynghylch sut maent yn teimlo y dylid datblygu'r safle.
- Mae teuluoedd unigolion ag anableddau dysgu wedi bod yn rhan o gomisiynu gwasanaeth byw â chymorth newydd. Cytunodd dau deulu i fod yn rhan o'r broses gomisiynu. Buont yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd ar-lein, rhoesant adborth drwy e-bost ac roeddent yn aelodau o'r paneli cyfweld a gwerthuso. Dylanwadodd llais y teuluoedd ar y gwasanaeth ac roeddent yn rhan o'r broses o ddewis y darparwr, a fyddai yn eu barn nhw, yn darparu'r gofal gorau.
- Parhaodd y Gwasanaeth Ieuenctid i gefnogi'r grŵp Ieuenctid Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a Chwestiynu, er mai'n rhithwir y gwnaed hynny.
- Mae ein Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol wedi lansio Tudalen Gartref Taliadau Uniongyrchol. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am daliadau uniongyrchol ochr yn ochr â gwybodaeth am sut i gyflogi Cynorthwyydd Personol a dolenni defnyddiol eraill.
- Mae Porth Cynorthwywyr Personol hefyd yn darparu cofrestr o Gynorthwywyr Personol sydd ar gael i'w cyflogi ar gyfer y rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint. Nod y gofrestr yw helpu dinasyddion a'u teuluoedd i chwilio am Gynorthwywyr Personol a dod o hyd i'r Cynorthwyydd gorau ar eu cyfer, ond hefyd i helpu Cynorthwywyr Personol i ddod o hyd i waith addas.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

| |
|---|
| Gan weithio mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru, lansiwyd Fflecsi / y Gwasanaeth Trafnidiaeth Ymatebol Integredig. Mae hwn yn wasanaeth y gellir ei archebu ymlaen llaw, sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig yn Nhreffynnon nad oes ganddynt wasanaeth ar hyn o bryd – gan ddarparu cysylltedd â'r Rhwydwaith Bysiau Craidd presennol, sydd yn ei dro yn cefnogi'r Gwasanaethau Masnachol sy'n eu gwneud yn hyfyw. Cafwyd adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr ac mae'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau. Mae un unigolyn sy'n rhannol ddall ac nad yw wedi defnyddio unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus ers nifer o flynyddoedd, bellach yn defnyddio'r gwasanaeth Fflecsi. Mae'n teimlo'n ddiogel ac yn hyderus iawn gyda'r gyrrwr ac mae bellach yn teithio o amgylch y gymuned lle'r oedd gynt yn unig iawn o fewn ei gartref ei hun. |

## Amcan 6: Gwella safonau byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

**Yn ystod 2020/21:**

- Nodwyd darpariaeth bosibl ar gyfer safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn ein Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
- Gwnaed gwelliannau i'r toiledau, ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau cegin ar ein safle Teithwyr
- Darparwyd dodrefn stryd ar gyfer gemau awyr agored a chae pum bob ochr ar safle caled ar ein safle Teithwyr a darparwyd offer chwarae megis peli pêl-droed, racedi tenis, peli tenis a rhaffau sgipio i'r bobl ifanc.
- Rydym wedi cytuno i fod yn ardal Ymfudo Byd-eang ac rydym yn aros am gymeradwyaeth i fod yn ardal Gwasgaru Ceiswyr Lloches.
- Er mwyn sicrhau bod pobl ddigartref yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19 agorwyd ein Lloches Nos 24 awr, saith diwrnod yr wythnos i gynnig cymorth ychwanegol a mynediad i le diogel yn ystod y dydd. Cwblhawyd archwiliadau allgymorth a lles o bryd i'w gilydd (hyd at dair gwaith yr wythnos) ar gyfer pobl yn cysgu ar y stryd. Rhannwyd ffonau i bobl yn cysgu ar y stryd i gynnal cyswllt ac ymgysylltu â nhw.
- Cynigiwyd llety i bob unigolyn sy'n cysgu ar y stryd. Darparwyd parseli bwyd a phecynnau lles fel y bo'n briodol.
- Cwblhawyd amrywiaeth o addasiadau i gartrefi ein tenantiaid anabl er mwyn sicrhau bod eu llety yn addas ar gyfer eu hanghenion a'u galluogi i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain. Roedd y rhain yn cynnwys gosod:
  - rheiliau llaw allanol i gynorthwyo mynediad i 50 eiddo a chyrbau isel y tu allan i gartrefi 10 eiddo.
  - rheiliau gafael yn fewnol ac yn allanol.
  - 20 sedd gawod.
  - 20 o declynnau codi mewnol mewn ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw.
- Yn ogystal â'r addasiadau hyn, cafodd dau o'n heiddo eu hadnewyddu'n llawn i sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch i denantiaid anabl.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

Cefnogwyd oedolyn ifanc traws digartref i gael cymorth iechyd meddwl arbenigol ac aethpwyd i apwyntiadau gydag ef. Cafodd gymorth i sicrhau lle ar y rhestrau aros ar gyfer Llety â Chymorth yn yr ardal ac mewn ardal awdurdod lleol arall. Cafodd gymorth nes iddo symud allan o'r ardal, gan gysylltu â'r gweithiwr LGBTQ+ a fyddai'n darparu cymorth yn y dyfodol. Erbyn hyn mae gan yr unigolyn ifanc hwn lety diogel a phriodol ac mae'n gwneud yn dda.

## Amcan 7 Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi

Gohiriwyd y cam o weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ac ni ddaeth i rym tan fis Mawrth 2021. Fodd bynnag, parhawyd i gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi.

**Yn ystod 2020/21:**

- Hwylusodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol gwrs hyfforddi "Deall Pobl Ifanc o Grwpiau Economaidd-Gymdeithasol Is"
- Cynhaliodd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Theatr Clwyd ymgyrch 'Blychau esgidiau Enfys' lle gwnaed dros 200 o focsys gan y gymuned ar gyfer teuluoedd bregus lleol.
- Dosbarthwyd pecynnau creadigol a bwyd, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Clwyd Alyn, i bedwar lloches i'r digartref a 40 o deuluoedd yn Sir y Fflint.
- Yn ystod y cyfyngiadau symud a'r cyfnodau atal byr, cafodd disgyblion oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac oedd yn methu â mynychu'r ysgol yn llawn amser Daliad Uniongyrchol diogel i roi mwy o hyblygrwydd i deuluoedd brynu bwyd i blant. Cafodd rhai teuluoedd agored i niwed barseli bwyd ychwanegol.
- Yn ystod y cyfyngiadau COVID-19, dosbarthwyd gwybodaeth i breswylwyr yn rhestru cysylltiadau allweddol ar gyfer sefydliadau a allai helpu gyda dosbarthu bwyd a meddyginiaethau neu fathau eraill o gymorth.
- Fel rhan o'r rhaglen cymorth bwyd frys *Well-Fed*, dosbarthwyd prydau ffres i bawb y cyfeiriwyd atynt fel rhai ag angen bwyd arnynt neu o dan y bygythiad o fod heb fynediad at fwyd ac a oedd yn hunan-ynysu oherwydd cyngor COVID-19 Llywodraeth Cymru. Mae'r parseli *Well-Fed* yn cynnwys prydau wedi'u paratoi'n ffres yn ogystal â bwydydd fel bara, llaeth, wyau a chynnyrch ffres arall.

# 4. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

4.1 1 Datblygwyd systemau o fewn portffolios a gwasanaethau i gasglu a monitro proffil ein cwsmeriaid yn ôl nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, mae'r holl wasanaethau'n wahanol ac nid yw pob nodwedd warchodedig yn cael ei chasglu ar bob system. Nid oes digon o ddata ar gael i'w ddadansoddi'n fanwl ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau. Mae'r gwaith yn parhau i wella'r broses o gasglu data ar draws gwasanaethau.
Daw'r categorïau a ddefnyddir i goladu data amrywiaeth o Gyfrifiad 2011 lle mae'r wybodaeth hon ar gael. Mae niferoedd cymharol isel mewn rhai cymunedau sy'n golygu ein bod yn anodd gwneud dadansoddiad ystadegol. Yn yr achosion hyn, defnyddir canlyniadau ymchwil ac adroddiadau cenedlaethol. Ni fydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gael tan fis Mawrth 2022 ymlaen.

4.2 Er gwaethaf yr heriau o ran casglu data, gwnaed gwelliannau i'n prosesau. Rydym bellach yn:

- cofnodi manylion ethnig defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn bellach yn faes gorfodol ar gronfa ddata cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol, PARIS.
- monitro proffil tenantiaid, ymgeiswyr digartrefedd a phobl ar y rhestrau aros am dai.

- cofnodi proffil disgyblion ysgol a lefelau cyrhaeddiad ysgolion.
- cofnodi a monitro data amrywiaeth i sicrhau nad oes cynrychiolaeth anghymesur o ddefnyddwyr gwasanaeth a gefnogir gan y Tîm Cyflawnder Ieuenctid

Rydym yn cwblhau archwiliad o ba wasanaethau sy'n casglu data monitro cydraddoldeb a lle mae bylchau. Byddwn yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain dros y 12 mis nesaf.

4.3 Cynhaliwyd ymchwil gan Gyngor Gwynedd ar gyfer Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN), rhwydwaith o holl Swyddogion Cydraddoldeb cyrff cyhoeddus Gogledd Cymru, i helpu i nodi'r anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau gwarchodedig. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'w defnyddio gan wasanaethau.

4.4 Mae NWPSEN wedi datblygu ffurflen monitro cydraddoldeb enghreifftiol gyda nodyn Cyfarwyddyd Deg Awgrym Gorau. Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ymhlith y categorïau monitro cydraddoldeb a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus ledled Gogledd Cymru a bydd yn cyfrannu at feincnodi mwy effeithiol.

4.5 Cesglir data ansoddol drwy ddulliau eraill megis arolygon a grwpiau ffocws a thrwy ymgysylltu â grwpiau lleol fel:

- Fforwm Anabledd Sir y Fflint
- Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint
- Cysylltiadau ffydd
- Fforwm Pobl Hŷn
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Race Equality First
- Cynghorau Ysgol
- Stonewall Cymru
- Teithio Ymlaen sy’n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr
- Grŵp trawsryweddol unigryw
- Grŵp Gweithredu 50 a mwy

Yn ystod y 12 mis diwethaf roedd angen rhaeadru gwybodaeth bwysig am iechyd y cyhoedd yn gyflym ac weithiau ar frys i'n holl drigolion a busnesau. Gweithiodd ein Tîm Cyfathrebu gyda chyrff cyhoeddus eraill Gogledd Cymru i ddatblygu cynllun cyfathrebu a rhestr o randdeiliaid allweddol i sicrhau bod mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol â'n holl gymunedau.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gryfhau’r broses ymgysylltu â'r holl nodweddion gwarchodedig, mae’r gwaith hwn ar y gweill.

**4.6 Defnyddio gwybodaeth i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol**

Caiff proffil cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth ei gymharu â phroffil y gymuned i nodi meysydd o or/tangynrychiolaeth neu dan gyflawniad sy'n galluogi gwasanaethau i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae defnyddio data fel hyn yn helpu gwasanaethau i nodi meysydd posibl a gwirioneddol o wahaniaethu yn ogystal â nodi'r cyfle i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy osod targedau gwella a fydd yn cael eu cynnwys yn y SEP. Defnyddiwyd y wybodaeth hon hefyd i nodi amcanion cydraddoldeb lleol y Cyngor.

Defnyddir cymariaethau o lefelau bodlonrwydd a chwynion a gwybodaeth gan grwpiau ffocws hefyd i nodi unrhyw feysydd o wahaniaethu posibl a gwirioneddol a meysydd o densiynau cymunedol sydd yn eu tro yn cyfrannu at nodi cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da.

### 4.7 Gwybodaeth am Gyflogaeth

Cyhoeddir proffil llawn o amrywiaeth y gweithlu ar wahân ac mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol yn ôl dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hwn i'w weld ar ein gwefan.

**Cyfansoddiad y Gweithlu**
Mae gan y Cyngor 6777 (swyddi wedi'u llenwi), nid yw hwn yn rhif cyfrif pen gan fod gan gyfran sylweddol o'n gweithwyr nifer o swyddi ar draws y sefydliad. Mae hyn yn ostyngiad o 31 (swyddi wedi'u llenwi) o archwiliad 2020.

**Cyfansoddiad y Gweithlu**

| Merched | % Merched | Dynion | % Dynion |
|---|---|---|---|
| 5235 | 77% | 1542 | 23 % |

Ceir gwybodaeth ansoddol drwy adborth gan gynrychiolwyr Undebau Llafur yg Nghydbwyllgor Ymgynghorol Undebau Llafur a thrwy'r rhwydweithiau gweithwyr.

Defnyddir gwybodaeth ansoddol a meintiol i gyfrannu at asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar bolisïau ac arferion Adnoddau Dynol ac i nodi meysydd o anghydraddoldebau posibl/gwirioneddol y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.

### 4.8 Cyflog Cyfartal

Cyhoeddir yr archwiliad cyflog cyfartal ar ein gwefan ac mae ar gael yma. Dengys ymchwil genedlaethol fod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n dal i fodoli. Ceir crynodeb o'r Archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol ar gyfer gwahanol nodweddion gwarchodedig isod, cafodd y data ei dynnu o system Adnoddau Dynol a Chyflogres y Cyngor "iTrent" ar 31 Mawrth 2021. Nid oedd gweithwyr wrth gefn wedi'u cynnwys yn y data hwn. Fodd bynnag cafodd gweithwyr dros dro eu cynnwys. Dadansoddwyd data ar gyfer pob aelod o staff, waeth beth oedd eu telerau a'u hamodau, i ddarparu bwlch cyflog cyffredinol rhwng y ddau ryw, gyda dadansoddiad pellach yn canolbwyntio ar rai grwpiau o weithwyr. Roedd unrhyw weithwyr a gafodd eu rhoi ar ffyrlo o dan Gynllun Cadw Swyddi'r Coronafeirws ar ddyddiad y ciplun yn cael eu cadw ar gyflog llawn, felly mae unrhyw weithwyr ar ffyrlo wedi'u cynnwys yn y data.

**Bwlch cyflog rhwng y ddau ryw**
Cyfrifir y bwlch cyflog rhwng y ddau ryw gan ddefnyddio cyflogau cymedrig a chanolrif staff benywaidd a fynegir fel canran o gyflogau cymedrig a chanolrif

gweithwyr gwrywaidd sy'n gwneud gwaith o werth cyfartal. 'Cyflog' yw'r cyflog cyfwerth ag amser llawn.

Yn gyffredinol, y cyflog cyfartalog i ferched ar draws pob gradd a thelerau ac amodau yw ***£26,474.59*** a'r cyflog cyfartalog i ddynion ar draws pob gradd a thelerau ac amodau yw ***£30,694.83*** sy'n rhoi Bwlch Cyflog **cyffredinol** Rhwng y Ddau Ryw o **13.75%.** Mae hyn yn defnyddio'r dull ***cymedrig*** o gyfrifo cyflog cyfartalog.

Gan ddefnyddio'r ***dull canolrifol***, y cyflog cyfartalog i ddynion ar draws pob Gradd a thelerau ac amodau yw ***£25,991*** a'r cyflog cyfartalog i ferched ar draws pob gradd a thelerau ac amodau yw ***£20,502*** sy'n rhoi bwlch cyflog cyffredinol o **21.12%.** Mae hyn yn gynnydd bach yn y bwlch cyflog canolrifol o 2020 (20.88%) mae hyn yn debygol o gael ei briodoli i gynnydd bach mewn cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd.

**Bwlch cyflog rhwng y ddau ryw fesul blwyddyn**

| **Bwlch cyflog rhwng y ddau ryw** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 16.96% | 13.65% | 13.40% | 13.11% | 13.75% |
| NJC/Llyfr Gwyrdd | 18.60% | 16.22% | 15.45% | 15.00% | 15.37% |

Ein her fwyaf o hyd yw gwahanu galwedigaethol. Pan fyddwn yn edrych ar draws y Cyngor Sir yn ei gyfanrwydd, mae nifer uwch o ferched mewn rolau â chyflogau is ac yn enwedig mathau o rolau. Gwahanu galwedigaethol yw un o'r rhwystrau sy'n atal merched a dynion rhag cyflawni eu potensial yn y farchnad lafur ac o ganlyniad mae'n cyfrannu at y bwlch cyflog. Mae merched yn tueddu i fod wedi'u crynhoi mewn swyddi â chyflogau is a'r graddau isaf o fewn y sefydliad. Mae angen inni sicrhau nad yw'r gronfa o dalent a sgiliau sydd ar gael i gyflogwyr yn cael ei llesteirio gan ganfyddiadau ystrydebol o'r hyn y mae merched a dynion yn ei wneud a bod sgiliau pawb yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

**Anabledd**

Mae bwlch cyflog cymedrig o 6.05% rhwng gweithwyr anabl ar draws y Cyngor Sir a'r rhai sydd wedi datgan nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn golygu bod cyflog cyfartalog person anabl 6.05% yn is ar gyfartaledd nag unigolyn nad yw'n anabl. Fodd bynnag, nid ystyrir bod y data hwn yn gadarn oherwydd y gyfran uchel (35.75%) o weithwyr nad ydynt wedi datgan gwybodaeth am anabledd.

**Dadansoddiad anabledd o'r holl weithwyr**

| **Wedi ystyried anabledd?** | **Nifer** | **Canran** | **Cyflog Cyfartalog** |
|---|---|---|---|
| Naddo | 4194 | 61.89% | £27,694.05 |
| Ddim yn gwybod | 522 | 7.70% | £29,228.93 |
| Do | 160 | 2.36% | £26,019.07 |
| (gwag) | 1901 | 28.05% | £26,487.91 |
| Cyfanswm | 6777 | 100.00% | £27,434.36 |
| | **Bwlch cyflog o ran anabledd** | | **6.05%** |

Ni fu'n bosibl llunio darlun ystyrlon i gymharu radd wrth radd a gwahanu galwedigaethol oherwydd niferoedd isel

**Ethnigrwydd**

**Bwlch Cyflog o ran Ethnigrwydd**

| **Ethnigrwydd** | **Cyflog Cyfartalog** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|---|
| Gwag/gwell gen i beidio â dweud | £27,096.68 | 2303 | 33.98% |
| Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | £30,347.67 | 30 | 0.44% |
| Gwyn | £25,990.41 | 4444 | 65.57% |
| **Bwlch Cyflog o ran Ethnigrwydd** | **-16.76%** | 6777 | 100% |

Mae nifer sylweddol o weithwyr sydd wedi dewis peidio â datgelu eu hethnigrwydd neu nad ydynt wedi darparu unrhyw wybodaeth am eu tarddiad ethnig **(33.98%)** mae hyn wedi gwella ychydig ers 2020, lle'r oedd y ffigur yn 34.30% ond, mae hyn yn ei gwneud yn anodd cynnal dadansoddiad cadarn o gyflog yn ôl ethnigrwydd.

Mae 4,444 o weithwyr wedi datgelu eu hethnigrwydd fel "gwyn" **(65.57%)** ac mae 30 o weithwyr wedi datgelu eu hethnigrwydd fel Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (0.44%.) Nodwch fod proffil ethnig Sir y Fflint yn 98.5% gwyn (cyfrifiad 2011 – swyddfa ystadegau gwladol). Y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd yw -16.76% sy'n dangos bod gweithwyr BME yn ennill 16.76% yn fwy ar gyfartaledd na'r rhai sydd wedi datgelu eu hethnigrwydd fel Gwyn. Fodd bynnag, oherwydd nifer uchel o weithwyr nad ydynt wedi datgan eu hethnigrwydd neu nad oes gennym wybodaeth amdanynt, nid ystyrir bod hyn yn ddigon cadarn i roi data ystyrlon.

**Bwlch Cyflog o ran Crefydd**

| **Bwlch Cyflog o ran Crefydd** | **Cyflog Cyfartalog** |
|---|---|
| Cristion | £27,761.01 |
| Ddim yn Gristion | £25,137.86 |
| Bwlch Cyflog | **9.45%** |

Cyfran cyfanswm y boblogaeth o weithwyr sydd wedi datgan eu crefydd neu eu cred fel Cristnogol yw **32.46%** ac mae **20.02%** wedi datgan crefydd neu gred arall (Fel Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewon, Mwslimaidd, Sicaidd, arall neu Ddim.). Nid yw **47.51%** yn gwybod beth yw eu crefydd neu gred. Fodd bynnag, oherwydd nifer uchel o weithwyr nad ydynt wedi datgan eu Crefydd neu nad oes gennym wybodaeth amdanynt, nid ystyrir bod hyn yn ddigon cadarn i roi data ystyrlon.

## 5.0 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs)

5.1 Asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg (EIA) yw un o'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i brif ffrydio cydraddoldeb ac i helpu gwasanaethau i nodi targedau cydraddoldeb penodol.

5.2 Datblygwyd templed rhanbarthol gan NWPSEN sy'n cynnwys effeithiau Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Economaidd-Gymdeithasol. Rhannwyd hyn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg i ofyn am eu hadborth cyn cael eu mabwysiadu gan aelodau NWPSEN. Mae hyn bellach wedi'i ymgorffori yn ein Hasesiad Effaith Integredig (IIA) a ddatblygwyd i gasglu'r wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer nifer o asesiadau effaith - gan gynnwys yr amgylchedd, iechyd, tlodi a'r Gymraeg. Mae nodiadau canllaw ar gael ar gyfer pob nodwedd warchodedig i gefnogi awduron IIA.

5.3 Rhaid cynnwys Asesiadau Effaith Integredig ym mhob un o'n hadroddiadau pwyllgor strategol i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall effeithiau eu penderfyniadau.

## 6.0 Hyfforddiant

6.1 Ceir manylion ynglŷn â sut rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth am gydraddoldeb yn y SEP. Mae dau becyn e-ddysgu yn benodol ar gydraddoldeb:-

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cydraddoldeb yn y Gweithle

Cefnogir y rhain gan becynnau e-ddysgu ar:

- Ymwybyddiaeth traws
- Caethwasiaeth fodern
- Troseddau casineb

6.2 Mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd wedi'u cynnwys yn:

- rhaglen y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) ar bob lefel.
- Modiwlau e-ddysgu ar gyfer rheolwyr newydd.
- Gweithdai sefydlu corfforaethol.

6.3 Yn ystod 2019/20 yn ogystal â'r rhaglenni e-ddysgu, cyflwynwyd gweithdai ar:-

- Cefnogi pobl ifanc Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Cwiar/Cwestiynu a Mwy (LHDTC+) sy'n ddigartref. Nod y gweithdy hwn oedd codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo dealltwriaeth o'r profiadau a'r heriau bywyd a wynebir gan bobl ifanc LHDTC+ - yn enwedig mewn perthynas â'r risg gynyddol o ddigartrefedd. Edrychodd y gweithdy ar sut i gynllunio a darparu gwasanaethau mwy cynhwysol ac wedi'u llywio gan bobl LHDTC+.
- Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb – fe'i darparwyd ar ffurf fideo a'i gyflwyno i weithredwyr Strydwedd.
- Darparwyd hyfforddiant caethwasiaeth Fodern gan gynnwys hyfforddiant Llinellau Sirol gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae Llinellau Sirol yn cyfeirio at gludo cyffuriau anghyfreithlon o un ardal i'r llall, yn aml ar draws ffiniau'r

heddlu ac awdurdodau lleol, fel arfer gan blant neu bobl sy'n agored i niwed sy'n cael eu gorfodi gan gangiau.

- Hwylusodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol hefyd weithdai ar:
    - Effaith chwaraeon ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ymysg ieuenctid
    - Ymwybyddiaeth o sipsiwn a theithwyr
    - Caethwasiaeth Fodern

## 7.0 Caffael

7.1 Nodir manylion am sut mae cydraddoldeb yn rhan annatod o'r broses gaffael yn y SEP. Mae cwestiynau cydraddoldeb wedi'u cynnwys yn ein holiadur cyn-gymhwyso (PQQ) ar gyfer pob tendr. At hynny, mae cymalau budd cymunedol wedi'u cynnwys mewn contractau dros £1 miliwn; mae contractau o £10,000 yn cynnwys elfen o fuddion cymunedol yn y dulliau sgorio. Rydym wedi cymeradwyo strategaeth newydd i gynyddu'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir o'n gweithgarwch caffael. Mae cydraddoldeb wedi'i gynnwys yn ein cymalau budd cymunedol. Bydd adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys canlyniadau gwerth cymdeithasol megis cynyddu cyfleoedd prentisiaeth a chyflogaeth a chanlyniadau iechyd a lles.

7.2 Rydym wedi ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Rydym wedi ymrwymo i gyfres o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac annheg. Cyhoeddwn ddatganiad Caethwasiaeth Fodern blynyddol, mae hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern o fewn ein cadwyni cyflenwi.

## 8.0 Casgliad

8.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd yr ydym yn ei wneud i gyflawni dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod casglu rhywfaint o ddata i fonitro cynnydd wedi bod yn heriol. Ein blaenoriaeth yw parhau i gasglu data i gefnogi dadansoddiad cadarn a diweddaru ein cynllun gweithredu i adlewyrchu argymhellion adolygiad Llywodraeth Cymru i effaith andwyol anghymesur COVID-19 ar bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac i adlewyrchu eu cynlluniau gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Chydraddoldeb Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) pan gânt eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

**Diolch am ddarllen ein Hadroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/21.**

**Atodiad 1 Cynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020- 2024**

**Cynnydd 2020/21**

| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1 2020/21** | | |
|---|---|---|
| **Amcan 1 : Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.** | | |
| **Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |
| Byddwn yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol drwy ddarparu gofal a chymorth. | Rheolwyr Gwasanaeth | Mae hyn yn cael ei ddatblygu drwy nifer o fentrau mewn partneriaeth agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Mae enghreifftiau'n cynnwys cynyddu’r ddarpariaeth i blant a llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu<br><br>G |
| Byddwn yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros y gofal a'r cymorth a gânt, a fydd yn lleihau anghydraddoldebau ymhellach i bobl â nodweddion gwarchodedig | Rheolwr Gwasanaeth | Mae pob asesiad ar gyfer Gofal a Chymorth yn |

| | | |
|---|---|---|
| | (Gwasanaethau Anabledd) | cynnwys trafod 'Beth sy'n Bwysig' i'r unigolyn i nodi cymorth ystyrlon<br><br>G |
| Sicrhau bod pobl sydd â nam ar y synhwyrau, gan gynnwys pobl fyddar a dall, yn gallu cael gafael ar Wybodaeth, Cyngor a Chymorth a/neu Ofal a Chymorth, gan leihau anghydraddoldeb o ran cael mynediad at wybodaeth a chefnogaeth. | Rheolwr Comisiynu | Rydym wedi comisiynu gwasanaeth gan DSN i gefnogi pobl fyddar a dall i gefnogi mynediad at wasanaethau<br><br>G |
| Byddwn yn Mynd ati i Gynnig Gofal a Chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan leihau'r risgiau o anghydraddoldeb neu wahaniaethu. | Rheolwr Comisiynu | Mae'r cynnig ar gael yn holl gyfathrebiadau Gwasanaethau Cymdeithasol, ac wrth ymgysylltu â'r gwasanaeth, gan gynnwys asesiadau integredig o'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | effaith ar gydraddoldeb<br><br>G |
| Byddwn yn mynd ati i gynnig Eiriolaeth i bobl wrth asesu eu hanghenion am ofal a chymorth, gan leihau'r risgiau o anghydraddoldeb neu wahaniaethu. | Rheolwr Comisiynu | Rhoddir y cynnig o eiriolaeth i bob cleient wrth gael asesiad<br><br>G |
| Byddwn yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau o ran eu hiechyd, eu lles a chanlyniadau personol mewn lleoliadau gofal a chymorth gan leihau'r tebygolrwydd o wahaniaethu ac anghydraddoldeb | Rheolwr Comisiynu | Cynnydd i'r Darparwyr, camau'n parhau ac wedi'u hehangu i Wasanaethau Anabledd Dysgu.<br>G |
| Byddwn yn cefnogi pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i aros yn annibynnol ac yn gallu byw gartref, yn enwedig pan fyddant yn cael eu heffeithio gan oedran neu anabledd. | Rheolwr Gwasanaeth (Pobl Hŷn) | Mae gennym nifer o wasanaethau wedi'u comisiynu a gwasanaethau mewnol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r rhai sy'n byw gydag anabledd i aros |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn annibynnol yn eu cartref eu hunain.<br><br>G |
| Byddwn yn cefnogi pobl cyn gynted â phosibl drwy ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol | Rheolwyr Gwasanaeth | Mae ystod ehangach o wasanaethau ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u cynllunio i gefnogi pobl cyn gynted â phosibl<br><br>G |
| Datblygu a gweithredu model lleol 'Tîm o amgylch yr Unigolyn' i gefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia. | Rheolwr Comisiynu | Cyflwynwyd model cymorth cartref a chymunedol newydd, gan gynnwys gweithwyr cymorth seibiant yn ystod y nos, gweithwyr cymorth dementia a thîm therapïau gweithwyr iechyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | proffesiynol cysylltiedig.<br><br>G |
| Gweithredu cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn cadw statws sefydliad "Gweithio tuag at ddod yn Sefydliad sy'n Ystyriol o Ddementia" | Rheolwr Comisiynu | Mae Strategaeth Dementia Sir y Fflint wedi'i datblygu. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Dementia Ranbarthol Gogledd Cymru a'i nod yw gwella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr a'u teuluoedd, o fewn cymunedau mwy gwybodus a chefnogol.<br><br>G |
| Byddwn yn cefnogi gofalwyr i barhau yn eu rôl ofalu | Rheolwr Comisiynu | Rydym yn cefnogi gofalwyr ac yn parhau i weithio gyda |

| | | |
|---|---|---|
| | | NEWCIS (sefydliad sy'n darparu cymorth i ofalwyr di-dâl). Rydym hefyd wedi sefydlu rhwydwaith i gefnogi ein gweithwyr sy'n ofalwyr.<br><br>G |
| Datblygu cynllun prosiect i adnewyddu safle Teithwyr. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Adnewyddwyd y safle – cwblhawyd ym mis Awst 2020 (cyflenwad trydanol newydd sbon, cawodydd newydd a ffensys newydd) G |
| Comisiynwyd contractwr i wella mannau gwyrdd a mannau chwarae i blant ar safle Teithwyr. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Darparwyd dodrefn stryd ar gyfer gemau a chae pum bob ochr ar safle caled. |

| | | |
|---|---|---|
| | | G |
| Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r ymchwil rydym wedi'i gomisiynu i anghenion iechyd Teithwyr. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Asesiad o anghenion iechyd wedi'i gwblhau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru – aros am yr adroddiad terfynol. Brechlyn COVID yn cael ei ddosbarthu i Deithwyr ar y safle. G |
| Datblygu safle dros dro i Deithwyr leihau nifer y gwersylloedd heb awdurdod mewn lleoliadau anniogel ac afiach a gwella mynediad at wasanaethau iechyd. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Safle arfaethedig wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Aros am y canlyniad gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Gwneir penderfyniad ym mis Hydref 2021 G |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu strategaeth Iechyd a Lles ar gyfer ein gweithwyr a chyflwyno mentrau i wella iechyd meddwl ein gweithwyr | Uwch reolwr Adnoddau Dynol ac DS | Gohiriwyd hyn oherwydd y pandemig<br>A |
| **Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella llesiant** | | |
| **Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |
| Gweithredu system electronig i gofnodi ac adrodd ar fwlio ar sail hunaniaeth mewn ysgolion | Cynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu | System Adrodd wedi'i datblygu. Angen ei threialu cyn ei chyflwyno mis Medi 2021. Gohiriwyd y peilot oherwydd y pandemig.<br>G |
| Darparu hyfforddiant i Lywodraethwyr ysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion diwylliannol/y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | Cynghorydd Polisi Strategol | Gohiriwyd hyn oherwydd capasiti a chaiff ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol |

| | | |
|---|---|---|
| | | A |
| Monitro Adroddiadau Arolygu Estyn a nodi unrhyw faterion cydraddoldeb mewn ysgolion er mwyn targedu cymorth i'r ysgol | Uwch Reolwr Gwella Ysgolion | A<br>Mae Estyn wedi gohirio pob arolygiad ac ymweliadau eraill â darparwyr addysg a hyfforddiant ers tymor yr haf 2020. Cytunwyd ar hyn yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yr ydym yn cyd-arolygu lleoliadau meithrin â nhw. Bydd hyn yn cael ei ohirio nes y ceir hysbysiad pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| Monitro cydymffurfiaeth pob ysgol â throsolwg Parchu Eraill Llywodraeth Cymru (canllawiau statudol) | Cynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu | Dosbarthwyd canllawiau i benaethiaid tymor yr Hydref 2020. Datblygwyd polisi enghreifftiol ar gyfer gwrth-fwlio yn unol â'r canllawiau ac fe'i darparwyd i ysgolion Tachwedd 2020. Gwneir gwaith monitro pellach ar y defnydd o'r system adrodd unwaith y caiff ei chyflwyno<br><br>A |
| Monitro cyfraddau gwahardd ysgolion yn ôl grwpiau gwarchodedig er mwyn targedu cymorth i ysgolion. | Uwch Reolwr Cynhwysiant | Dim gwaharddiadau oherwydd dysgu o bell a'r pandemig<br><br>G |

| | | |
|---|---|---|
| Monitro absenoldeb parhaus mewn ysgolion yn ôl nodwedd warchodedig | Uwch Reolwr Cynhwysiant | Cynhaliwyd adolygiadau data rheolaidd bob hanner tymor i nodi unigolion sy'n agored i niwed. Ymwelodd y tîm Lles Cynhwysiant ag unrhyw blant y nodwyd eu bod yn agored i niwed. G |
| Codi ymwybyddiaeth o fwlio ar sail hunaniaeth yn ystod wythnos gwrth-fwlio | Cynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu | Cynhaliwyd Wythnos Gwrthfwlio ddydd Llun 16 - Dydd Gwener 20 Tachwedd 2020. Gweithiodd y Gynghrair Gwrth-fwlio gyda Llywodraeth Cymru yn 2020 i ddatblygu adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | uwchradd i gefnogi thema 2020 sef *'United Against Bullying'*. Cafodd gwybodaeth ei rhaeadru i ysgolion i hyrwyddo hyn.<br><br>G |
| Sicrhau bod pob ysgol yn cael mynediad at hyfforddiant caethwasiaeth fodern | Cynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu | Gohiriwyd yr hyfforddiant ac mae bellach yn cael ei ddarparu ar-lein.<br>G |
| Sicrhau bod pob ysgol gynradd yn cael mynediad at "Cymru'n Cyd-dynnu" gan gynnwys adnoddau a hyfforddiant Black Lives Matters | Cynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu | Dosbarthwyd adnoddau. Mae hyfforddiant wedi'i ohirio. Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer cyfnodau allweddol 2, 3 a 4 ar gyfer 2021/22.<br>G |

| | | |
|---|---|---|
| Lleihau'r bwlch a'r lefel cyrhaeddiad addysgol ar gyfer y rhai sy'n gymwys/ar gyfer /sy'n cael prydau ysgol am ddim. | Uwch Reolwr Gwella Ysgolion | Gohiriodd Llywodraeth Cymru y gwaith o gyfrifo a chyhoeddi mesurau hanesyddol perfformiad cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth ar gyfer blynyddoedd academaidd 2019 i 2020 a 2020 i 2021. A . |
| Parhau i gefnogi grŵp Ieuenctid LHDT bob pythefnos | Swyddog Gwybodaeth a Chyfranogiad | Yn ystod y pandemig, cefnogwyd pobl ifanc yn rhithwir. Darparodd "Inspire", partneriaeth ag awdurdod lleol a'r trydydd sector, weithgareddau ar-lein. Cynyddodd y niferoedd a |

| | | |
|---|---|---|
| | | fynychodd yn ystod COVID-19.<br>G |
| Monitro pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid | Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid | Wedi'i gwblhau – dim achosion anghymesur wedi'u nodi. Darperir adroddiadau i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br>G |
| Parhau i gefnogi sesiynau wythnosol Teithwyr ifanc | Gweithiwr Fforwm Ieuenctid | Gohiriwyd hyn yn ystod y flwyddyn ond darparwyd cymorth drwy'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr<br>G |
| Monitro effaith y Grant Datblygu Disgyblion a ddirprwyir i ysgolion i gau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. | Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgolion | Rhaid i ysgolion roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y maent wedi gwario eu grant datblygu |

| | | |
|---|---|---|
| | | disgyblion i'r consortia rhanbarthol bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio’r gwaith o gyfrifo a chyhoeddi canlyniadau asesu lefelau ysgolion, lleol a chenedlaethol ar gyfer 2020 a 2021.<br><br>A |
| Codi proffil pynciau STEM i ddisgyblion BAME | Uwch Reolwr Gwella Ysgolion | Nid yw'r cam hwn wedi'i gymryd oherwydd yr ymateb brys sydd ei angen i gefnogi ysgolion yn ystod y pandemig. Bydd y cam hwn yn cael ei ddwyn ymlaen.<br><br>A |

| | | |
|---|---|---|
| Darparu canllawiau ac adnoddau polisi Traws diwygiedig i ysgolion | Cynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu | Ar hyn o bryd mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnal yn 2022 A |
| **Amcan 3 Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy weithredu strategaethau cyflog a graddfeydd teg, agored a thryloyw** | | |
| **Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |
| Cynnal archwiliad cyflog cyfartal blynyddol a datblygu cam i leihau'r gwahaniaeth cyflog rhwng dynion a merched a grwpiau gwarchodedig eraill | Swyddog Polisi a Gwobrwyo Adnoddau Dynol | Cyhoeddwyd adroddiad G |
| Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael gwaith cyflogedig drwy Brosiect SEARCH. | Tîm Cynllunio a Datblygu | Sicrhaodd pedwar unigolyn gyflogaeth o fwy nag 16 awr yr wythnos. Mae saith unigolyn newydd wedi dechrau G |
| Cyflawni Arweinydd Hyderus o ran Anabledd Lefel 3 – Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) | Swyddog Polisi a Gwobrwyo Adnoddau Dynol | Rydym wedi dechrau adolygu'r camau |

| | | |
|---|---|---|
| | | sydd eu hangen i gyflawni lefel 3<br><br>G |
| Parhau i weithio gyda phrosiect "Clean Slate Cymru" menter a ariennir gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) i helpu ffoaduriaid a theithwyr i gael gwaith | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Mae pedwar o ddynion o Syria wedi'u cyfeirio at y rhaglen ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol yn ystod 2020/21<br><br>G |
| Parhau i gasglu data amrywiaeth gan weithwyr i gynyddu'r gyfradd ymateb | Swyddog Gwybodaeth Busnes Adnoddau Dynol | Mae data amrywiaeth yn parhau i gael ei goladu. Mae data ar wahân i ysgolion yn cael ei gasglu yn ystod y cam recriwtio, fodd bynnag, mae bylchau o hyd yn nata ysgolion. Mae TG yn datblygu dilysu dau ffactor i allu cyflwyno ‘r |

| | | |
|---|---|---|
| | | system Hunanwasanaeth Gweithwyr (ESS) i staff Ysgolion.<br><br>G |
| Monitro cydraddoldeb y gweithlu’n flynyddol a datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau, a'u lleihau | Swyddog Gwybodaeth Busnes Adnoddau Dynol | Adroddiad ar wahân a baratoir yn flynyddol. Nid yw'r dadansoddiad wedi'i gwblhau eto.<br>A |
| Cynnal gwaith monitro cydraddoldeb blynyddol ar gyfer ein prentisiaid i nodi tangynrychiolaeth a datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau | Swyddog Gwybodaeth Busnes Adnoddau Dynol | Paratoir adroddiad i ddarparu data prentisiaid ar wahân.<br><br>A |
| Nodi cyfleoedd i ddefnyddio camau cadarnhaol i leihau anghydraddoldebau | Cynghorydd Polisi Strategol | Mae hyn yn parhau, bydd canlyniadau adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu yn nodi lle mae |

| | | |
|---|---|---|
| | | angen i ni dargedu mentrau.<br><br>A |
| Datblygu dull strategol a chyson o ymgorffori gwerth cymdeithasol yn y broses gaffael er mwyn cynyddu cyfleoedd prentisiaeth i bobl anabl, pobl o gefndir BME a merched | Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol | Mae gwerth cymdeithasol wedi'i gynnwys yn y broses gaffael ar gyfer pob contract dros £25k ac mae'n orfodol ar gyfer contractau dros £1m. Mae dau leoliad ar gyfer interniaid Project SEARCH wedi'u sicrhau. Adroddir ar ganlyniadau o 2022 ymlaen<br>G |
| Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n cwblhau'r modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb | Cynghorydd Polisi Strategol | Pob gweithiwr wedi'u hannog i gwblhau modiwlau e-ddysgu drwy gydol y flwyddyn. Niferoedd sy'n cwblhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb: Deddf Cydraddoldeb - 374 Cydraddoldeb yn y Gweithle -332 A |
| **Amcan 4 : Gwella diogelwch personol pob grŵp gwarchodedig** | | |
| **Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |
| Parhau i hyfforddi gweithwyr mewn timau allweddol i nodi ac adrodd am ddigwyddiad casineb a throseddau casineb | Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Darparwyd hyfforddiant troseddau casineb drwy'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol G |
| Gweithredu modiwl e-ddysgu ar ddigwyddiadau casineb ac ymwybyddiaeth o droseddau casineb | Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Cwblhawyd – modiwl wedi'i gwblhau ac mae ar gael i bob gweithiwr G |
| Datblygu polisi i gefnogi gweithwyr sy'n dioddef digwyddiadau casineb a throseddau casineb | Swyddog Polisi a Gwobrwyo | Mae hyn bellach wedi'i gynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| | Adnoddau Dynol | yn y polisi Urddas yn y Gwaith<br><br>G |
| Codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau casineb a throseddau casineb mewn ysgolion drwy Lywodraeth Cymru, Grant Cydlyniant Cymunedol | Cynghorydd Polisi Strategol /Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Gohiriwyd yr hyfforddiant ond mae bellach yn ei le ar gyfer 2021/22<br><br>A |
| Datblygu mentrau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol drwy'r Grant Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Cynghorydd Polisi Strategol /Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau gan y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol gan gynnwys y prosiect *Diverse Together*, gan ddod â phobl o wahanol gefndiroedd at ei gilydd yn rhithwir<br>G |

| | | |
|---|---|---|
| Archwilio opsiynau i ddatblygu adnoddau i hyrwyddo mis Hanes Pobl Dduon | Cynghorydd Polisi Strategol /Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Cynhaliwyd ymchwil i grantiau sydd ar gael i gefnogi prosiect. Mae prosiect posibl yn cael ei gwmpasu.<br><br>A |
| Cymryd rhan ym mis Hanes LGBT | Cynghorydd Polisi Strategol | Cynhaliwyd dathliad rhithwir drwy godi baner yr Enfys a hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol a datganiad i'r wasg<br><br>G |
| Cymryd rhan yn yr wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb flynyddol i gynyddu adroddiadau ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. | Cynghorydd Polisi Strategol | Buom yn gweithio gyda Rhwydwaith Swyddogion cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn hyrwyddo gwybodaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | drwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>G |
| Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n cwblhau modiwlau e-ddysgu Trais yn y Cartref yn erbyn merched Llywodraeth Cymru. | Swyddog Gwybodaeth Busnes Adnoddau Dynol | Mae 50.65% o weithwyr bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant<br>A |
| Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern | Cynghorydd Polisi Strategol | Cwblhaodd 307 o weithwyr yr hyfforddiant e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern<br>A |

**Amcan 5: Cynyddu mynediad at gyfranogiad i wasanaethau a gwneud penderfyniadau ar gyfer pob grŵp gwarchodedig**

| Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|
| Sefydlu prosesau monitro cydraddoldeb mewn gwasanaethau allweddol i nodi rhwystrau posibl i fynediad | Cynghorydd Polisi Strategol | Mae'r gwasanaethau'n cynnal ymarfer mapio i fonitro |

| | | |
|---|---|---|
| | | cydraddoldeb. Y cam nesaf yw adolygu data ac unrhyw fylchau.<br><br>G |
| Cwblhau adolygiad o'r wefan i sicrhau ei bod yn bodloni safonau hygyrchedd | Pensaer Datrysiadau Digidol | Mae gwiriadau wythnosol yn cael eu cwblhau i wirio cydymffurfiaeth<br>G |
| Adolygu cyfleoedd i wella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl a phobl hŷn | Rheolwr Trafnidiaeth | Cyflwyno Fflecsi, y gwasanaeth trafnidiaeth ymatebol yn Nhreffynnon. Mae adolygiad parhaus o drefniadau teithio lleol y sir (LTA) a datblygiad y rhwydwaith teithio llesol yn parhau. Mae cysyniad strydoedd yr ysgol yn parhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar draws y sir.<br><br>G |
| Datblygu cynllun o weithgareddau ar gyfer y model newydd o Wasanaethau Archifau sy'n targedu grwpiau gwarchodedig yn gadarnhaol ar gyfer ymgysylltu â nhw | Prif Archifydd | Gwnaed cais i Dreftadaeth y Loteri am arian. Gwneir cais newydd ar gyfer llai o arian.<br><br>A |
| Archwilio cyfleoedd i gryfhau cydraddoldeb o fewn y broses gaffael | Cynghorydd Polisi Strategol | Adolygwyd y broses gaffael i gryfhau cysylltiadau ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb<br><br>G |

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan 6: Gwella safonau byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol** | | |
| **Gweithredu** | **Who** | **Cynnydd** |
| Datblygu cynllun ar gyfer safle dros dro i Deithwyr | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Safle arfaethedig wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Aros am y canlyniad gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Gwneir penderfyniad ym mis Hydref 2021<br>G |
| Gwella toiledau, ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau cegin ar safle'r Teithwyr sy'n eiddo i'r Cyngor | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Cwblhawyd hyn ym mis Awst 2020<br>G |
| Comisiynu contractwr i wella mannau gwyrdd a mannau chwarae i blant ar safle Teithwyr. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Darparwyd dodrefn stryd ar gyfer gemau awyr agored a chae pum bob ochr ar safle caled. Mae offer chwarae fel peli |

| | | |
|---|---|---|
| | | pêl-droed, racedi tenis, peli tenis a rhaffau sgipio wedi'u cyflenwi i bobl ifanc sy'n byw ar ein safle. G |
| Dod yn ardal Ailsefydlu ar gyfer Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Cytundeb i ddod yn ardal Ymfudo Byd-eang. Aros am gymeradwyaeth i fod yn ardal Gwasgaru Ceiswyr Lloches. G |
| **Amcan 7 Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi** | | |
| **Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |
| Darparu cynhyrchion misglwyf am ddim mewn ysgolion uwchradd | Cynghorydd Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu | Darparodd pob ysgol uwchradd (13) gan gynnwys yr Uned Cyfeirio Disgyblion a’r Uned Arbennig gyfran o gyllid grant Llywodraeth Cymru i brynu cynhyrchion |

| | | |
|---|---|---|
| | | misglwyf. Mae gan bob geneth o oed ysgol uwchradd fynediad i ddetholiad o gynhyrchion misglwyf – cyfanswm o 4753 o ddisgyblion.<br><br>Rhoddwyd cynhyrchion mislif i ddisgyblion fynd adref a phostiwyd rhai yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tra bod disgyblion yn dysgu o bell.<br>G |
| Darparu cynhyrchion misglwyf am ddim mewn ysgolion cynradd | Cynghorydd Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu | Cafodd holl ysgolion cynradd Sir y Fflint (65) gyfran o'r cyllid grant i'w ddefnyddio o fewn y canllawiau a ddarparwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rhoddwyd cynhyrchion mislif i ddisgyblion fynd adref a phostiwyd rhai yn ystod y 12 mis diwethaf tra bod disgyblion yn dysgu o bell.<br><br>G |
| Cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu rhaglen SHEP (Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol) - bydd pedwar safle sy'n cynnig cinio - ar gael i bob blwyddyn. Cynigir 40 o leoedd ar bob safle | Cynghorydd Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu | Cafodd SHEP 2020 ei ganslo. Fodd bynnag, darparwyd cinio drwy'r prosiect *Well-Fed*<br><br>G |
| Gweithredu canllawiau Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol | Cynghorydd Polisi Strategol | Gohiriwyd y broses o weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. Caiff y cam hwn ei |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddwyn ymlaen i 2021/22 |
| Codi ymwybyddiaeth o fenthyca arian anghyfreithlon i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu hecsbloetio. | Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Cafodd fideos eu gwneud a'u cyhoeddi<br>G |
| Cefnogi cynhadledd ranbarthol ar fenthyca arian anghyfreithlon. | Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Canslwyd y gynhadledd oherwydd y rheoliadau a oedd ar waith ar y pryd |
| Parhau i godi ymwybyddiaeth o gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a sicrhau bod pob cartref ar incwm isel yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo a sut y gallant wneud hawliad. | Rheolwr Tîm – Asesiad Budd-daliadau | Yn parhau<br>G |
| Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Tîm Diwygio Lles sy’n gallu cefnogi unrhyw gwsmeriaid sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau i’r system Diwygio Lles neu sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol. | Rheolwr Tîm Diwygio Lles | Yn parhau<br>G |
| Parhau i godi ymwybyddiaeth i sicrhau bod pob cartref ar incwm isel yn ymwybodol y gallent fod yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim a Grant gwisg ysgol | Rheolwr Tîm – Grantiau a Pherfformiad | Yn parhau<br>G |
| Darparu cymorth cyfannol ac ariannol i'r cwsmeriaid hynny sy'n cael eu hunain mewn trafferthion ariannol cyn iddynt ddisgyn i grafangau tlodi. | Rheolwr Tîm Diwygio Lles | Yn parhau<br>G |